# Siop y Senedd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

16 Mawrth 2015

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 6 Mawrth, pan ofynnoch:

1. *Am ba hyd y mae'r Senedd wedi cael ei frand ei hun o wisgi'r Alban?*
2. *Pam nad oes wisgi Cymreig ar gael yn y Senedd?*

*1. Am ba hyd y mae'r Senedd wedi cael ei frand ei hun o wisgi'r Alban?*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cadw ei frand ei hun o wisgi'r Alban ers cyn 2006. Mae eitemau sy'n arddangos brand y Cynulliad yn boblogaidd gyda'n cwsmeriaid a chaiff y labeli eu marcio'n glir i ddangos tarddiad y wisgi.

*2. Pam nad oes wisgi Cymreig ar gael yn y Senedd?*

Mae wisgi Cymreig ar gael yn siop y Senedd. Rydym yn cadw nifer o eitemau gan gwmni Wisgi Cymreig Penderyn gan gynnwys wisgi, fodca, jin a phecynnau o wirodydd amrywiol.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan: www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Buddug.Saer@Cynulliad.Cymru Buddug.Saer@Assembly.Wales

Buddug Saer
Swyddog Rhyddid Gwybodaeth a Chymorth Prosiect
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF